Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 20.09.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## AROLWG: Deall yr Economi Gylchol

Er mwyn deall yn well yr heriau y mae busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector yn eu hwynebu wrth gymhwyso egwyddorion economi gylchol ac arferion gweithredu, bydd arolwg 'Deall yr Economi Gylchol' yn helpu i lunwyr polisi lywio pa gymorth fyddai'n helpu ac i gyhoeddi rhestr o'r adnoddau a'r cyrsiau sydd ar gael. I gymryd rhan yn yr arolwg byr hwn, ewch i:

https://bit.ly/3BRhKXE

## GWOBRAU: Gwobrau Dewi Sant 2023

Gwobrau Dewi Sant yw gwobrau cenedlaethol Cymru sy'n cydnabod llwyddiannau eithriadol pobl wahanol o Gymru a thu hwnt. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno enwebiadau yw 20 Hydref 2022. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/gwobrau-dewi-sant/am-y-gwobrau

# DYSGU: Cyrsiau am ddim – MeTAL (Addysg, Hyfforddiant a Dysgu am Ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu)

Prosiect dysgu seiliedig ar waith yw MeTAL (Addysg, Hyfforddiant a Dysgu am Ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu), sy'n canolbwyntio ar fodiwlau hyfforddiant technegol i fynd i'r afael â phrinderau sgiliau a darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar ddiwydiant i ffynnu mewn sector sy'n cael ei arwain gan wybodaeth. Maent yn gallu cynnig hyfforddiant cwbl achrededig yn rhad ac am ddim, gyda holl fodiwlau ar-lein ar gael i'w cofrestru yn syth. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.project-metal.co.uk/cy/cyrsiau

# DYSGU: MADE Cymru – cyrsiau yn dechrau 7 Hydref 2022

Mae llefydd wedi eu hariannu'n llawn ar gyfer busnesau cymwys bellach ar gael ar raglenni MADE Cymru ar gyfer gweithgynhyrchwyr, 'Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0' a 'Rheoli Arloesedd'. Mae'r cyrsiau yn dechrau yn Hydref 2022, am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.madecymru.co.uk/cy/

neu e-bostiwch: MADE@uwtsd.ac.uk

# BREXIT: Gweminarau ar gyfer defnyddio Marciau Asesu Cydymffurfiaeth Newydd

Mae gweminarau sy'n rhoi trosolwg o'r cyfrifoldebau a'r rheoliadau newydd ar gyfer busnesau gweithgynhyrchu wrth ddefnyddio marc newydd UKCA (Asesiad Cydymffurfiaeth y DU) i roi nwyddau ar y farchnad ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban) i'w gweld ar:

https://bit.ly/3Ls1wpf

# ARIANNU: Cyllid Sgiliau i Gyflogwyr A Gweithwyr (SEE)

Gan dargedu sectorau allweddol yn cynnwys bwyd, economi ddigidol, gwyddorau bywyd ac iechyd, gweithgynhyrchu uwch, twristiaeth, adloniant a hamdden, gofal, adeiladu ac ynni a charbon isel, mae prosiect Sgiliau i Gyflogwyr a Gweithwyr Coleg Cambria yn helpu busnesau wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru i ddatblygu sgiliau staff a chreu gweithlu arbennig o gymwys. Darganfyddwch mwy am gyllid SEE ar:

https://www.cambria.ac.uk/cyflogwyr/cyllid-i-gyflogwyr-a-gweithwyr/?lang=cy

# LLES: Gweninarau RCS

Mae RCS yn darparu cymorth, hyfforddiant a therapïau i helpu pobl a busnesau ledled Cymru i wella eu llesiant ar gyfer gwaith. Mae manylion am weminarau lles RCS sydd ar y gweill ar gael ar:

https://rcs-wales.co.uk/cy/webinars-cy/

Mae gwybodaeth cyffredinol am RCS ar gael ar:

https://rcs-wales.co.uk/cy/

# DIGWYDDIAD: Gogledd Creadigol – Brand-New(ydd) 22 Medi 2022

Bydd Gogledd Creadigol yn cynnal digwyddiad brandio yng Ngholeg Menai, Llangefni ar 22 Medi 2022 (3:00pm-6:00pm), lle

bydd cyfle i glywed gan arbenigwyr brandio a chymryd rhan mewn gweithdy ymarferol i hybu eich brand. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://brand-new-ydd.eventbrite.co.uk

- Dyma'r ddolen gywir, roedd y ddolen a nodwyd ym mwletin 16.09.2022 yn anghywir.

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru